

# GRŴP ARBENIGOL AR ANGHENION CYMUNED Y LLUOEDD ARFOG YNG NGHYMRU

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 7 CHWEFWROR 2018

### Aelodau

Alun Davies AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Wasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol
Lefftenant-Cyrnol Kevan Thornber	Brigâd Milwyr Traed 160 a'r Pencadlys yng Nghymru
Brigadydd Frasier	Y Llynges Frenhinol
Annabel Ingram	Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin
Jen Brooksbank	Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol
Jane Williams	Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges
Lisa Gostling	HIVE
Peter Evans	Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Ant Metcalfe	Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Cyrnol Nick Beard	Cymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid (RFCA)
Mike Bailey	Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr
Rachel Morgan	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Kevin Morgan	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Leeanne Plechowicz	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru
Ian Caws	COBSEO
Ross Hall	Prifysgol De Cymru
Jenna Clare	Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Neil Kitchiner	Cyn-filwyr GIG Cymru
Reg Kilpatrick	Llywodraeth Cymru – Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol
Jan Jones	Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol
Cerys Gage	Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol
Julia Letton	Llywodraeth Cymru – Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol

### Ymddiheuriadau

Comodor yr Awyrlu Adrian Williams	Yr Awyrlu Brenhinol
Seb Hargeaves	Cymdeithas Cynorthwyo Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA)
Lefftenant-Cyrnol Stephen Hughes	Cymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid (RFCA)
Naomi Alleyne	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Huw Thomas	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Peter Higson	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ian Barrow	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru

Jason Pollard  
Dawn North  
James Greenrod  
Cyng Rob Jones

Llywodraeth Cymru – Gwasanaethau  
Iechyd a Chymdeithasol  
HIVE  
Tîm Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn  
Llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol  
Cymru

## **EITEM 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU**

- 1.1 Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet yr aelodau i'w gyfarfod cyntaf o Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog gan gydnabod y gwaith a gyflawnwyd gan ei ragflaenydd, cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.
- 1.2 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi gweithio gyda gweithwyr y Lluoedd arfog yn y gorffennol ac felly'n ymwybodol o'r trawma roeddynt yn ei brofi wrth wasanaethu. Roedd ganddo ddi-ddordeb mewn clywed barn y Grŵp felly gofynnodd i'r aelodau siarad yn agored ym mhob cyfarfod.

## **EITEM 2 – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF A GYNHALIWDYD AR 5 GORFFENAF 2017**

- 2.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## **EITEM 3 – ADRODDIAD CYNNYDD AR Y CAMAU A GYMERWYD YN DILYN CYFARFODYDD BLAENOROL**

- 3.1 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod llawer o'r camau gweithredu blaenorol wedi'u cwblhau neu wrthi'n cael eu cwblhau.
- 3.2 Rhoddodd Julia Letton y wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth deintyddiaeth yn RAF y Fali. Dywedodd fod trafodaethau ar droed rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Dean Clarke, Swyddog Cyswilt Cymunedol RAF y Fali. Cynhaliwyd arolwg ar-lein o anghenion teuluoedd er mwyn gweld faint oedd angen darpariaeth ddeintyddol. Roedd 11 teulu wedi ymateb o'r 109 teulu sydd wedi cofrestru. Cadarnhaodd dau deulu nad oedd ganddynt ddeintydd. Bydd trafodaethau'n parhau i weld beth yw'r angen.
- 3.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod am roi sylw pellach i fmaterion deintyddiaeth.
- 3.3 Nododd a chytunodd yr aelodau ar y Cylch Gorchwyl diwygiedig. Gofynnodd Jan Jones a fyddai gan aelodau unrhyw wrthwynebiad i wahodd cynrychiolydd o'r heddlu i fod ar y Grŵp. Dywedodd Annabel Ingram fod aelod o'r heddlu'n mynychu'r fforymau rhanbarthol a bod y dull hwn yn gweithio'n dda. Cytunwyd i wahodd cynrychiolydd o'r heddlu.

## **Camau Gweithredu:**

- **Ystyried darpariaeth deintyddiaeth RAF y Fali ymhellach.**
- **Swyddogion i wahodd cynrychiolydd o'r heddlu i fod yn aelod o gyfarfodydd y Grŵp Arbenigol yn y dyfodol.**

## **EITEM 4 – CYFLAWNIADAU HYD YN HYN**

- 4.1 Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn ymwybodol o'r problemau yr oedd cymuned y Lluoedd Arfog yn eu hwynebu yn ei etholaeth ef ym Mlaenau Gwent. Wrth sôn am gyflawniadau'r Grŵp Arbenigol dywedodd ei fod yn gweithio'n dda fel sbardun ar gyfer darparu gwasanaethau penodol. Roedd yn gobeithio adeiladu ar y cyflawniadau hyd yma. Pwysleisiodd fod angen nodi problemau a dull cydweithredol o'u datrys.
- 4.2 Cyflwynodd Jan y papur, gan nodi ei fod yn gyfle i adolygu'r cyflawniadau y llwyddwyd i'w sicrhau mewn cydweithrediad â holl aelodau'r Grŵp, Er bod y papur yn cynnwys cyflawniadau ar draws nifer o feysydd, awgrymodd Jan y byddai'n gyfle da i ganolbwyntio ar barhau i gydweithio yn y dyfodol. Cadarnhaodd fod strwythurau ar waith i godi materion a rhannu arferion gorau, a bod angen i aelodau ddefnyddio mwy ar fforymau rhanbarthol a Rhwydwaith Lluoedd Arfog Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Dywedwyd mai'r Bwrdd Cyfamod a Chyn-filwyr Gweinidogol fydd yn llywio cyfeiriad Grŵp Cyfeirio'r Cyfamod yn y dyfodol a bod meysydd diddordeb allweddol yn cynnwys metrics a darpariaeth a pherfformiad y Cyfamod ledled y DU.
- 4.3 Dywedodd Ant Metcalfe y byddai cyfarfod nesaf o Borth y Cyn-filwyr yn cael ei gynnal yn y Gwanwyn a chytunodd i roi diweddariad ar yr ystadegau diweddaraf yn dilyn y cyfarfod.
- 4.4 Gofynnodd Mike Bailey am i'r cyflawniadau gael eu rhannu'n ehangach, gan nodi canfyddiad y cyhoedd nad yw Cymru'n gwneud digon i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog. Cyfeiriodd Lefftenant-Cyrnol Thornber a Jenna Clare at y gwaith da sy'n cael ei wneud yng Nghymru, sylwadau a gadarnhawyd gan Leanne Plechowicz a ddywedodd fod y maes Cyfiawnder Troseddol yn Lloegr yn sôn am gyflawniadau Cymru'n aml.
- 4.5 Nododd Peter Evans y Llwybr Atgyfeirio Tai, gan awgrymu y byddai'n ddefnyddiol gwerthuso llwyddiant y Llwybr a'r mater o ddileu'r gofyniad am gyswllt lleol ar gyfer gwŷr a gwragedd priod a phartneriaid sifil sydd wedi ysgaru neu wahanu fel rhan o Ddeddf Tai Cymru.
- 4.6 Canmolodd Reg Kilpatrick y cyflawniadau a wnaed, gan nodi bod y mwyafrif wedi'u cyflawni heb gyllideb ac mewn cydweithrediad â phartneriaid. Mynegodd Reg ddiddordeb mewn codi ymwybyddiaeth o'r cyflawniadau a gofynnodd am sefydlu is-grŵp i ystyried sut i wneud hyn.

## **Camau gweithredu:**

- Ant i rannu'r ystadegau diweddaraf yn dilyn cyfarfod nesaf Porth y Cyn-filwyr.
- Sefydlu is-grŵp i ystyried sut i gyfathrebu'n cyflawniadau.

## **EITEM 5 – GWAITH AR Y CYD AR BROFIADAU NIWEIDIOL YN YSTOD PLENTYNDOD A'R RHAI SY'N GADAEL GWASANAETH YN GYNNAR**

- 5.1 Mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet ddiddordeb yn y prosiect ymchwil i archwilio'r cysylltiad rhwng Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod Cynnar a'r Rhai sy'n Gadael Gwasanaeth yn Gynnar, gan nodi, er bod nifer o aelodau'r lluoedd arfog yn gadael gwasanaeth yn gynnar, nad yw'r rhesymau'n cael eu deall yn dda bob amser.
- 5.2 Cyflwynodd Ross Hall yr eitem agenda gan egluro fod y prosiect yn deillio o gynhadledd Cyfamod y Lluoedd Arfog a gynhaliwyd yn hydref 2017 a thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru. Dywedodd Ross ei fod eisoes wedi cyfarfod â gwahanol bartneriaid gyda golwg ar ddod o hyd i brosiectau eraill sy'n cael eu cynnal yn y maes hwn. Byddai canlyniadau disgwylidig yr ymchwil yn cynnwys:
- Dealltwriaeth fanwl o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar absenoldeb a'r bwriadau i adael y Lluoedd Arfog yn gynnar yn y DU;
  - Mecanwaith cychwynnol ar gyfer sgrinio'r rhai sydd mewn perygl o adael yn gynnar;
  - Sylfaen ar gyfer datblygu adnoddau sgrinio newydd ac ymyriadau i leihau absenoldeb a bwriadau i adael y Lluoedd Arfog yn gynnar.

Byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Forces in Mind Trust cyn cyflwyno cais ffurfiol am gyllid maes o law. Dywedodd Ross fod yna ragdybiaeth y dylid gwneud mwy wrth bontio ond credai y dylid darparu mwy o gymorth cyn pontio.

- 5.3 Dywedodd Lefftenant-Cyrnol Thornber nad oedd profiadau niweidiol yn ystod plentynod yn dod i'r golwg wrth ymrestru, o gymharu â bywyd sifiliaid lle'r oedd cymorth gofal cymdeithasol yn aml yn nodi profiadau o'r fath.
- 5.4 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i Ross am y diweddariad a gofynnodd am barhau i gael ei hysbysu am gynnydd.

## **EITEM 6 – DIWEDDARIAD AR GANFYDDIADAU YMCHWIL I FODEL UNED ENDEAVOUR A PHROFIAD CYN-FILWYR A RYDDHAWYD O'R UNED.**

- 6.1 Rhoddodd Leeanne Plechowicz ddiweddariad ar yr ymchwil a gynhaliwyd i brofiad adsefydlu cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog o Uned Endeavour. Eglurodd Leanne fod yr uned bwrpasol yng Ngharchar y Parc wedi bod yn destun trafod, gyda'r awgrym fod yr uned yn gwneud y broses o bontio'n anoddach i'r rhai sydd eisoes yn cael trafferth gyda phontio.

6.2 Fel rhan o'r astudiaeth siaradodd Leeanne ag 21 o gyn-weithwyr y Lluoedd Arfog a oedd wedi'u rhyddhau. Y pwrpas oedd canfod beth oedd eu cymhellion a'u profiad yn yr uned yn ogystal â'u profiad o adsefydlu yn dilyn eu rhyddhau. Y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymchwil oedd:

- Pam mae cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog yn dewis byw ac ymgysylltu gydag Uned Endeavour?
- Sut mae cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog yn adsefydlu o Uned Endeavour?
- A yw model yr uned bwrsol yn darparu 'bachyn ar gyfer newid' sy'n annog paratoad am adsefydlu cyn rhyddhau ac adsefydliad cadarnhaol ar ôl rhyddhau?

6.3 Daeth canfyddiadau'r ymchwil i'r casgliad bod pontio wedi bod yn anodd yn sgil heriau o ran cyflogaeth a'r newid i drefniadau bywyd bob dydd. Roedd y mentora gan gymheiriaid a ddarparwyd wedi bod yn boblogaidd gan ei fod wedi rhoi cymhelliad i gyn weithwyr y Lluoedd Arfog gymryd rhan. Byddai darparu gwasanaeth o'r fath cyn rhyddhau yn ddefnyddiol. Roedd pwysigrwydd yr amgylchedd ffisegol yn cael effaith sylweddol, gyda llawer yn dweud fod yn well ganddynt le glân y gofelir amdano'n dda. Roedd cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog yn croesawu'r tynnu coes milwrol a phrofiad personol staff yr Uned o weithio yn y Lluoedd Arfog. Roedd y rhai a oedd yn ddibynnol ar alcohol a chyffuriau'n croesawu'r ymyriadau a ddarparwyd er mwyn datrys problemau o'r fath. Pwysleisiwyd bod ymddiriedaeth a chyflawni addewidion yn bwysig o ystyried y cwlwm milwrol cryf a ddatblygwyd yn ystod eu cyfnod yn y Lluoedd Arfog.

6.4 Daeth Leeanne â'i diweddariad i ben drwy ddweud bod yr ymchwil wedi nodi bod:

- Unedau pwrpasol i'r rhai a oedd yn gwerthfawrogi darpariaeth arbenigol wedi helpu cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog i baratoi at y broses adsefydlu a chymryd rhan ynddi;
- Angen i'r unedau pwrpasol ystyried yr amgylchedd staffio a ffisegol priodol gan feithrin diwylliant milwrol hefyd.

6.5 Gofynnodd Neil Kitchiner a oedd unrhyw un o'r 21 cyn-weithiwr Lluoedd Arfog a holwyd wedi derbyn atgyfeiriad iechyd meddwl. Cadarnhaodd Leeanne y byddai angen iddi ymchwilio i hyn ymhellach gan fod Change Step yn rhan o'r broses.

6.6 Mynegodd Mike ddiddordeb mewn adolygu'r 21 cyn-weithiwr Lluoedd Arfog yn y dyfodol. Er y gall hyn fod yn her gan nad yw'r cyn-weithwyr ar drwydded mwyach, bydd y data'n parhau i gael ei gasglu'n rheolaidd.

6.7 Cadarnhaodd Leeanne fod adborth gan Uned Endeavour wedi bod yn gadarnhaol a bod y broses wedi'i hailadrodd yng Ngharchar y Berwyn ers hynny. Yn y dyfodol, byddai'n ddiddorol cymharu a chyferbynnu cyn-weithwyr y Lluoedd Arfog a oedd wedi cymryd rhan a'r rhai nad oedd wedi cymryd rhan. Nododd Peter Evans y byddai'n ddefnyddiol cymharu yn erbyn y rhai nad oedd wedi bod yn aelodau o'r Lluoedd Arfog hefyd.

- 6.8 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i Leeanne am y cyflwyniad gan ddweud fod ganddo ddiddordeb mewn gwneud newidiadau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau yn y dyfodol.

## **EITEM 7 – DIWEDDARIAD CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU**

- 7.1 Cyflwynodd Rachel Morgan ddiweddariad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan ddweud fod Rhwydwaith y Lluoedd Arfog wedi'i sefydlu fel rhan o brosiect Cenedlaethol Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2017 gan roi cyfle i ddarparu diweddariadau a rhannu gwybodaeth. Cynhelir y cyfarfodydd hyn ddwywaith y flwyddyn a bydd y nesaf ym mis Ebrill.
- 7.2 Roedd pecynnau hyfforddiant ar-lein wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn sicrhau cysondeb darpariaeth. Cadarnhaodd Rachel fod y pecynnau hyfforddiant, sydd i'w lansio'n fuan, wedi'u cynllunio mewn modd y gallai'r awdurdodau lleol addasu'r hyfforddiant yn unol â'u hanghenion. Roedd deunyddiau marchnata'n cael eu datblygu hefyd a byddent yn cynnwys brand cenedlaethol, i annog cysondeb o ran darpariaeth.
- 7.3 Dywedodd Rachel fod mwyafrif yr awdurdodau lleol wedi penodi Swyddogion Cyswllt i'r Lluoedd Arfog. Roedd Swyddogion Cyswllt y Gogledd wrthi'n datblygu gwefan Cyfamod Gogledd Cymru a fyddai'n cysylltu â Phorth y Cyn-filwyr ac yn hidlo i lawr drwy wefannau awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol. Mae Swyddogion Cyswllt De Cymru wedi cynnal arolwg staff i brofi ymwybyddiaeth o'r Cyfamod ac roeddynt wrthi'n adolygu cynnwys ar draws gwefannau'r holl awdurdodau lleol. Roedd Swyddogion Cyswllt y De-orllewin hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cael presenoldeb cynhwysfawr a chliir ar-lein ac yn canolbwyntio ar hyfforddiant ac arolygon staff. Roedd yr awdurdodau lleol oedd heb benodi Swyddogion Cyswllt yn ystyried opsiynau i gael arian Cyfamod i ddilyn dull tebyg. Byddai adolygiad o'r rolau'n cael ei gynnal yn y dyfodol agos.
- 7.4 Mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet bryder am ddarparu gwasanaethau rheng flaen, ac roedd yn awyddus i sicrhau bod penodi Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog yn gwneud gwahaniaeth, a bod anghenion cymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu diwallu.
- 7.5 Canmolodd Neil waith y Swyddogion Cyswllt gan nodi y byddai'n ddefnyddiol cael dull tebyg ar draws fforymau ieuchyd.

## **EITEM 8 – DIWEDDARIAD GAN Y WEINYDDIAETH AMDDIFFYN A'R TRI GWASANAETH**

- 8.1 Cyflwynodd Jenna Clare y diweddariad ar ran tîm Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn. Eglurodd Jenna fod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn adolygu darpariaeth polisi Cyn-filwyr y DU i weld a yw'n addas i'r diben o ystyried y

bydd nifer y cyn-filwyr yn debygol o leihau yn y dyfodol. Nodwyd pa mor bwysig yw cynnwys yr holl weinyddiaethau datganoledig mewn trafodaethau yn y dyfodol.

- 8.2 Soniodd Jenna am y gwaith a oedd ar droed ar bolisi Pontio'r Tri Gwasanaeth, gan bwysleisio'r angen i ystyried darpariaeth llety, addysg ac iechyd meddwl yn ogystal â chyflogaeth. Maes ffocws arall oedd canfyddiad cyn-filwyr. Eglurodd Jenna fod gwaith ymchwil annibynnol yn cael ei wneud ers cyhoeddi adroddiad pontio'r Arglwydd Aschroft i weld a oes unrhyw wahaniaethau wedi'i gyflawni.
- 8.3 Mae tri opsiwn yn cael eu paratoi ar gyfer darparu Cerdyn Adnabod Cyn-filwyr yn y dyfodol – marciwr adnabod, cerdyn adnabod newydd a chyn-weithwyr y Lluoedd Arfog yn cadw'r cerdyn adnabod oedd ganddynt yn lifrai'r fyddin. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu ar ôl i benderfyniad gael ei wneud.
- 8.4 Eglurodd Jenna fod gwaith ar droed i fesur perfformiad ledled y DU, i sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaethau. Mae darpariaeth gwasanaethau'n amrywio ar hyn o bryd a dywedodd Jenna fod y Gwasanaethau a ddarperir yn diwallu anghenion cymuned y Lluoedd Arfog oni bai cymuned y Gwasanaeth dan anfantais.
- 8.5 Mae gwaith ar droed i gysoni'r Cyfamod yn y Gymuned gyda chanllawiau ar waith ar gyfer gweithwyr a theuluoedd y Lluoedd Arfog sy'n symud o'r naill wlad i'r llall. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â meysydd hysbys o anfantais hefyd, er enghraifft, gosod hysbysiadau ar gyfer teuluoedd y Lluoedd Arfog sydd â phlant oedran ysgol, yr heriau sy'n wynebu gweithwyr Tramor a'r Gymanwlad a'u teuluoedd a lliniaru effaith negyddol penodiadau tramor.
- 8.6 Dywedodd Jenna y byddai'r Cyfamod wedi bod mewn grym am 10 mlynedd yn 2021 ac y byddai angen ystyried ei ddiwygio. Wrth ddiolch i Jenna am y diweddariad cynhwysfawr gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet iddi barhau i hysbysu i swyddogion am ddarpar-gynigion gan y byddai angen sylw buan ar gyfer unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth.
- 8.7 Er bod yr ôl-troed llyngesol yng Nghymru yn fach, cadarnhaodd Brigadydd Frasier fod y niferoedd yn cynnwys cadetiaid a chyn-filwyr yn bennaf. Gyda 2018 yn 'Flwyddyn y Môr', cadarnhaodd y Brigadydd mai'r nod oedd gwella dealltwriaeth o'r Lluoedd Arfog drwy ddigwyddiadau wedi'u trefnu, yn cynnwys Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog, cyflwyno Rhyddid y Ddinas i Abertawe a Cadoediad 100.
- 8.8 Croesawodd Lefftenant-Cyrnol Thornber adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol gan ddweud bod y blaenoriaethau ar gyfer Brigâd 160 yn cynnwys brwydrau a gweithrediadau amddiffyn. Cadarnhaodd fod cymorth MCA wedi'i ddarparu yn ystod Cwpan UEFA ac yn dilyn y digwyddiad yn Parsons Green, a bod trafodaethau'n parhau ar gyfer cymorth a goblygiadau yn y dyfodol.

- 8.9 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet a'r aelodau'n cytuno bod Aberhonddu'n rhan bwysig o'r gymuned. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet ei bryder am yr Adolygiad o Ystadau Amddiffyn a lleoliad canolfannau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru. Awgrymodd Jenna y gallai Ysgrifennydd y Cabinet gyfleu ei bryderon i'r Ysgrifennydd Amddiffyn, Gavin Williamson.

## **EITEM 9 – DIWEDDARIAD GAN FFEDERASIYNAU TEULUOEDD**

- 9.1 Cyflwynodd Annabel yr astudiaethau achos ar yr heriau mae teuluoedd y Lluoedd Arfog yn eu hwynebu. Roedd un enghraifft yn dangos sut roedd lleoli plant mewn ysgolion gwahanol yn cael effaith ar fywyd y teulu. Gofynnodd Annabel i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ymchwilio i hyn, gan egluro bod rhai ysgolion yn hyblyg ond nad yw pob teulu'n ddigon cryf i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol. Cadarnhaodd Jenna fod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ystyried cynyddu'r amser ar gyfer derbyn gorchmynion penodiad a fyddai'n darparu mwy o amser i deuluoedd ystyried opsiynau addysg.
- 9.2 Canmolodd Annabel y gwaith a wnaed i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth a oedd ar gael i gymuned y Lluoedd Arfog gan obeithio y byddai problemau'n lleihau yn y dyfodol. Meysydd pryder eraill i deuluoedd y Lluoedd Arfog oedd Model Llety'r Dyfodol, materion tramor a Chymanwlad a phontio; gyda phroblem pontio'n dwysáu yn sgil y ffaith nad oes canolfan adsefydlu ar gael yng Nghymru.
- 9.3 Wrth nodi'r materion a godwyd dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y gallai Ffederasiynau Teuluoedd fynegi eu pryderon yn ysgrifenedig. Byddai swyddogion yn cyfarfod â nhw i drafod ymhellach hefyd.

## **EITEM 10 – UNRHYW FATER ARALL**

- 10.1 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r aelodau am eu cyfraniadau gan nodi ei fod wedi bod yn gyfarfod buddiol. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 26 Medi, 11.00 – 12.30pm.